

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Parc Y Bont

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Parc y Bont yn gymuned ddysgu gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch cynhenid. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel tra'n dysgu ac wrth chwarae, ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod o fedrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau mathemateg ac ysgrifennu, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws ystod eang o feysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fuddiol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser.

Darperir cwricwlwm gan staff sy'n ysgogol, eang a chytbwys i ddisgyblion. Mae'r modd mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o ymwelwyr ac ymweliadau fel sbardun ar gychwyn themâu i danio dychymyg disgyblion yn rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael eu hysbrydoli ac mae eu hagweddau a'u gwydnwch wrth ddysgu yn gadarn. Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn ac yn ystyried eu syniadau wrth gynllunio gweithgareddau dysgu, sy'n sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dros eu dysgu. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau yn annibynnol ar sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu. Cynllunnir profiadau dysgu gan staff sy'n hyrwyddo hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol yn gelfydd. Mae hyn yn dwysáu eu dealltwriaeth o'u lle mewn cymdeithas a phwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a chydwybodol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer meithrin 'cymuned sy'n tyfu a ffynnu fel un'. Mae llywodraethwyr yn weithredol wrth herio a chefnogi staff ac maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â rhieni. Fodd bynnag, nid yw dulliau cyfathrebu'r ysgol yn ddigon effeithiol bob amser, ac nid oes dealltwriaeth gytûn rhwng yr ysgol a'r rhieni o sut i godi materion am les a dysgu eu plant.

# Argymhellion

**A1** **Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ar sut y maent am gyflawni a chyflwyno eu gwaith**

**A2** **Cryfhau dulliau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, a sicrhau dealltwriaeth gytûn rhwng yr ysgol a'r rhieni wrth godi materion am les a dysgu eu plant**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Parc Y Bont |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 105 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 91 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/07/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.